Hawdd ei Ddeall

Archwiliadau Iechyd Blynyddol i oedolion gydag anableddau dysgu

Ein cynllun ar gyfer yr adolygiad hwn

Mae **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru** (**AGIC**) yn cynnal gwiriadau i sicrhau diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Geiriau Anodd

Mae'r **geiriau anodd** mewn lliw glas. Rydyn ni'n eu hesbonio mewn blwch glas o dan y frawddeg. Gallwch hefyd weld y geiriau i gyd anodd ar **dudalen 7**.



Yr **adolygiad** yma

Mae **adolygiad** yn golygu ein bod ni'n edrych yn ofalus ar rywbeth i weld beth sy'n gweithio'n dda a beth allai fod yn well.



Rydyn ni'n edrych ar ba mor dda mae Archwiliadau Iechyd Blynyddol yn gweithio i oedolion ag anableddau dysgu.

Beth yw Archwiliad Iechyd Blynyddol?



Mae Archwiliad Iechyd Blynyddol yn digwydd unwaith y flwyddyn.



Bydd meddyg neu nyrs yn edrych ar eich iechyd.



Mae'n bosib y bydd yr archwiliad iechyd yn dod o hyd i broblemau iechyd.



Gall eich helpu i gael y gofal a'r help sydd eu hangen arnoch chi.

Pam rydyn ni'n gwneud hyn?



Mae rhai pobl sydd ag anableddau dysgu yn ei chael hi'n anodd cael y gofal iechyd sydd ei angen arnyn nhw.



Rydyn ni am wybod a yw Archwiliadau Iechyd Blynyddol yn gweithio'n dda.



Rydyn ni am wybod a yw pobl yn cael yr help cywir.




Rydyn ni hefyd eisiau gwybod beth allai fod yn well.



Ar beth byddwn ni'n edrych?

Rydyn ni am wybod:



- Gawsoch chi wahoddiad i gael Archwiliad Iechyd Blynyddol?



- Oedd y wybodaeth yn hawdd ei deall?



- Gawsoch chi'r help roedd ei angen arnoch chi?



- Beth ddigwyddodd yn ystod eich archwiliad iechyd?



- Gawsoch chi'r help priodol wedyn?

Rydyn ni am glywed gan bobl



Byddwn ni'n siarad gydag oedolion ag anableddau dysgu.



Efallai y byddwn hefyd yn siarad ag aelodau o'r teulu, gofalwyr ac **eiriolwyr**.

Mae **eiriolwyr** yn bobl a all eich helpu i ddeall gwybodaeth a'ch helpu i ddweud beth sydd ar eich meddwl.



Rydyn ni am glywed am eu profiadau o Archwiliadau Iechyd Blynyddol.



Byddwn ni'n ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan.

Sut byddwn ni'n cynnal yr adolygiad?



Byddwn ni'n casglu gwybodaeth o bob rhan o Gymru.



Byddwn ni'n siarad â staff gofal iechyd.



Byddwn ni'n edrych ar rai practisau meddygon teulu a chofnodion iechyd.



Byddwn ni'n edrych ar yr holl wybodaeth a beth mae pobl wedi'i ddweud wrthon ni.

Beth fydd yn digwydd nesaf?



Byddwn ni'n cyhoeddi adroddiad yn egluro beth rydyn ni wedi gweld.



Bydd yr adroddiad yn dweud beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen bod yn well.



Rydyn ni'n bwriadu cyhoeddi'r adroddiad yn ystod **Gwanwyn 2027**.

Geiriau anodd

Geiriau anodd

Efallai y bydd rhai geiriau yn y ddogfen hon yn anodd eu deall. Mae'r dudalen hon yn esbonio beth mae'r geiriau hynny'n ei olygu mewn ffordd syml.



Adolygiad

Mae **adolygiad** yn golygu ein bod ni'n edrych yn ofalus ar rywbeth i weld beth sy'n gweithio'n dda a beth allai fod yn well.




Eiriolwyr

Mae **eiriolwyr** yn bobl a all eich helpu i ddeall gwybodaeth a'ch helpu i ddweud beth sydd ar eich meddwl.

Sut i gysylltu ag AGIC

Oes angen y wybodaeth hon arnoch chi mewn ffordd wahanol?



Gallwn ni roi'r wybodaeth hon i chi mewn fformat neu iaith arall. Cysylltwch â ni:




Drwy'r post:

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ



Drwy e-bost:

agic@llyw.cymru



Dros y ffôn:

0300 062 8163